| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Ariannol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

Bod aelodau'n cymeradwyo'r trosglwyddiadau canlynol i'r cronfeydd wrth gefn fel y nodir yn Adran 6 yr adroddiad:

- £66 mil i'r gronfa Cynllunio wrth gefn (ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol)
- £134 mil i Gronfa Newid Sianel (Cwsmeriaid a Chymorth Addysg)
- £121 mil i Gronfa Addysg y Tu Allan i'r Sir

Mae **Atodiad 5** yn nodi manylion yr holl drosglwyddiadau fel y cytunwyd arnynt gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 (Atodiad 1). Cyllideb net y Cyngor yw £192 miliwn. Ar ddiwedd mis Ionawr, rhagwelir tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £991 mil (£951 mil y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiad o 0.78%.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013/14. Cytunwyd ar darged arbed o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn a hyd yn hyn mae 89%

wedi eu cyflawni (£2.716 miliwn). Mae'r targed yn cynnwys £200 mil o arbedion moderneiddio. Hyd yn hyn, tybir y bydd £140 mil yn cael ei gyflawni (gan gynnwys ad-drefnu argraffyddion ac arbedion teithio). Tybir bod gweddill yr arbedion yn gyraeddadwy ond ni ellir eu cadarnhau tan ar ôl asesu gweithgarwch y flwyddyn gyfan.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyllidebau cyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r naratif sy'n cefnogi rhagolygon y gwasanaethau wedi ei nodi isod lle bo angen:

**Gwella Busnes a Moderneiddio -** Er bod y tanwariant wedi aros ar £72 mil, mae'r rhagamcan bellach yn cynnwys effaith y newidiadau canlynol:

- £40 mil bellach wedi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn EDRMS fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad diwethaf
- Yr Adain Archwilio Mewnol bellach yn cael ei adrodd dan Gwella Busnes a Moderneiddio a rhagwelir tanwariant o £15 mil oherwydd ein bod wedi gweithredu arbedion 2014/15 yn fuan.
- Tanwariant pellach o £20 mil yn sgil yr oedi yn yr amserlen ar gyfer cyflwyno Cynllun Mawr 2
- Mân amrywiadau o ran y £5 mil sy'n weddill.

Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cynnig defnyddio'r tanwariant o £32 mil yn 2014/15 i helpu i ariannu swydd Swyddog Gwybodaeth. Mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth yn cynnig defnyddio'r £20 mil i ariannu costau gohiriedig Cynllun Mawr 2, a bod £20 mil yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiect sy'n helpu i ddatganoli gwasanaethau i Gynghorau Tref a Chymuned.

**Cyllid ac Asedau -** Rhagwelir y bydd tanwariant o £15 mil. Mae rhan o hyn yn ymwneud â hyfforddiant caffael arfaethedig a fydd yn awr yn cael ei gynnal ym mis Ebrill (£5 mil) a swyddi gwag o fewn y tîm Caffael (£10 mil).

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol –** Mae'r Amgylchedd a Gwasanaethau Priffyrdd yn dal i ddangos gorwariant o £96 mil. Fodd bynnag, mae'r rhagamcan hwn yn cynnwys nifer o gronfeydd wrth gefn, yn enwedig mewn perthynas â'r gyllideb Cynnal a Chadw yn y Gaeaf. Bydd lefel y rhagamcanion hyn yn parhau i gael eu hasesu yn ystod yr wythnosau nesaf mewn ymateb i'r tywydd ac yn cael eu hadrodd arnynt mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol. Os nad oes angen y cronfeydd wrth gefn bydd cyllideb y gwasanaeth yn debygol o gael ei chydbwyso ddiwedd y flwyddyn.

**Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd –** Mae ffi cynllunio o £99 mil wedi ei dderbyn yn ddiweddar mewn perthynas â'r datblygiad ym Modelwyddan. Bydd rhan o'r gwariant yn erbyn yr incwm yn cael ei wario yn y flwyddyn bresennol

(£33 mil), gyda'r gweddill yn cael ei warion dros y ddwy flynedd nesaf. Felly argymhellir fod £66 mil o'r ffi a dderbyniwyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau yn y dyfodol, bydd y swm hwn yn cael ei roi mewn cronfa gynllunio wrth gefn er mwyn ei ddefnyddio i gyfateb gwariant yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes –** Mae’r alldro ar gyfer 2013/14 yn y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yn dangos tanwariant ar hyn o bryd o £119 mil (cyllideb gros o £48 mil). Mae'r tanwariant i'w briodoli yn bennaf i weithredu’r cynigion ar gyfer arbedion 2014/15 yn barod ar gyfer effaith blwyddyn lawn.

**Gwasanaethau Plant -** Y sefyllfa bresennol yw tanwariant o £469 mil, sef cynnydd o £59 mil o gymharu â’r mis blaenorol. Mae'r symudiad wedi digwydd o ganlyniad i arbediad o £20 mil yn sgil oedi wrth benodi a gostyngiad ar wariant maethu annibynnol o £31 mil o ganlyniad i leoliadau yn dod i ben yn gynt nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o danwariant y flwyddyn gyfredol yn ymwneud ag ardaloedd lle mae arbedion wedi eu cytuno ar gyfer 2014/15. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno cais am grant i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r tîm Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd. Mae’r cais yn cynnwys ad-dalu rhai costau staffio sydd ar hyn o bryd yn cael eu codi ar refeniw. Ar hyn o bryd nid ydym ni’n gwybod a fydd y cais yn llwyddiannus ond, os yw’n llwyddiannus, bydd cynnydd o £64 mil yn y tanwariant.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden -** y rhagolygon presennol yw tanwariant bychan o £3 mil. Mae perfformiad ariannol Theatr Pafiliwn y Rhyl yn parhau i wella ac mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer y lleoliad yn nodi tanwariant bychan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae nifer y cwsmeriaid yng nghyfleusterau hamdden y cyngor yn parhau i ragori ar dargedau, sy'n cyfiawnhau'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Mae’r oedi wrth agor Harbwr y Foryd wedi effeithio ar lefelau incwm 13/14 ond cytunwyd eisoes y bydd unrhyw ddiffyg arian yn cael ei dalu yn gorfforaethol. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon diweddaraf yn rhagweld y dylai hyn fod yn llawer llai nag a ragwelwyd yn flaenorol.

**Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg –** Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn cyflawni tanwariant o £134 mil. Mae'r symudiad o £23 mil ers y mis diwethaf yn bennaf yn ymwneud â rhyddhau nifer o gronfeydd wrth gefn ac amseriad diwygiedig rhai buddsoddiadau TGCh. Argymhellir bod cronfa wrth gefn newydd yn cael ei sefydlu i ysgogi'r Newid Sianel a phrosiect Mynediad i Gwsmeriaid sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen foderneiddio. Bydd hyn yn hanfodol wrth gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol yn y dyfodol. Bydd y gwariant yn rhychwantu’r ddwy flynedd ariannol nesaf a bydd yn lleihau'r gofyniad cyllid gan adnoddau corfforaethol. Argymhellir ymhellach fod tanwariant y gwasanaeth yn cael ei roi yn y gronfa wrth gefn yma.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiad -** Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn dangos tanwariant o £121 mil, sy’n ymwneud â chyllideb Addysg y tu allan i’r Sir. Mae'r rhagamcan hwn yn dal i gynnwys nifer o dybiaethau mewn perthynas â lefelau disgwyliedig o daliadau a godir gan awdurdodau lleol a

darparwyr lleol eraill. Argymhellir bod y tanwariant hefyd yn cael ei roi yn y Gronfa Addysg y Tu Allan i'r Sir a sefydlwyd yn gynharach yn y flwyddyn ac sy'n caniatáu rhyddhau cyllideb effeithlonrwydd £200 mil yn 2014/15. Mae cynyddu'r gronfa yn darparu opsiynau pellach wrth ystyried arbedion cyllideb ar gyfer 2015/16.

**Ysgolion –** ddiwedd mis Ionawr y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £3.131 miliwn, sy'n symudiad positif o £261 mil ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13 (£2.870 miliwn). Mae'r symudiad o'r adroddiad diwethaf yn ymwneud yn bennaf â'r oedi yn y buddsoddiad arfaethedig mewn isadeiledd ysgol a fydd yn awr yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae'r rhagamcanion ar hyn o bryd yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer buddsoddiad TGCh na ellir eu cyflwyno tan fis Ebrill. Mae'r cyngor yn cefnogi dwy ysgol sydd mewn anhawster ariannol ac mae disgwyl i'r gefnogaeth barhau yn 2014-15. Mae gan y ddwy ysgol benaethiaid dros dro sy'n ymwneud yn llawn â'r broses adfer ac maent yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol yn unol â hynny. Mae trydedd ysgol, Ysgol Uwchradd y Rhyl, a oedd wedi bod mewn trafferthion ariannol, erbyn hyn wedi cyflawni ei thargedau yn ei chynllun adfer a bydd yn cael ei rhedeg i warged a gynlluniwyd erbyn diwedd 2014-15. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol. Mae'r Gyllideb nad yw'n ddirprwyedig yn rhagweld tanwariant o £116 mil ar hyn o bryd.

**Cyllidebau corfforaethol –** Amcangyfrifir bod costau cyfalaf y llifogydd ym mis Rhagfyr yn oddeutu £330 mil (adfer amddiffynfeydd y môr), gyda chostau refeniw o £150 mil. Mae cais wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol (nid yw'r cais wedi ei asesu ar hyn o bryd). Mae'n debygol y bydd rhywfaint o arian yn cael ei ddarparu ar gyfer y gwaith cyfalaf i wella amddiffynfeydd môr, ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau eto. Y dybiaeth yn erbyn y gyllideb Gorfforaethol yw £350 mil – byddai balansau cyffredinol yn cael eu defnyddio i ariannu unrhyw gost ychwanegol.

Mae'r gyllideb Gorfforaethol yn cynnwys dyraniad cyllideb y blaenoriaethau o £140 mil ar gyfer moderneiddio. Amcangyfrifir y bydd £80 mil o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio yn 2013/14.

Mae £116 mil o ddyledion wedi eu dileu mewn perthynas â Threth y Cyngor a £19 mil o ddyledion wedi eu dileu mewn perthynas â dyledwyr eraill. Amcangyfrif y bydd dyledion Treth y Cyngor a ddilëir yn oddeutu £220 mil erbyn diwedd y flwyddyn sy'n gyson â'r llynedd. Mae dileu dyledion yn ymwneud â dyledion anadferadwy sydd, mewn rhai achosion, yn dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd.

Rhagwelir y bydd cronfeydd arian wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** yn £13.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, gan adael gofyniad ariannol o oddeutu £8.6 miliwn ar gyfer cyflwyno'r Cynllun.

**Cyfrif Refeniw Tai** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio cynnydd o £105k mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn sy'n welliant o £207k o'i gymharu â'r rhagdybiaeth yn y gyllideb. Mae'r rhagolwg Cynllun Cyfalaf Tai wedi newid i £7.6 miliwn ers y mis diwethaf. Dylai'r Safon Ansawdd Tai Cymru

gael ei gyflawni ym mis Ebrill 2014. Amcangyfrifir mai £50 mil fydd gwerth dyledion a ddilëir yn ystod y flwyddyn gyfredol sydd yn unol â'r rhagolwg yn y gyllideb.

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi ei amgáu fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £37.6 miliwn ac mae'r gwariant hyd at ddiwedd mis Ionawr yn £22.4 miliwn. Mae gwariant cyfalaf yn ystod chwarter olaf y flwyddyn wastad yn sylweddol uwch na'r chwarter blaenorol ac felly yw'r sefyllfa eto eleni. Hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £7.1 miliwn ar y **Cynllun Corfforaethol**.

Mae **Atodiad 4** yn rhoi diweddariad o'r prif brosiectau a gynhwyswyd yn y Cynllun Cyfalaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymarferion herio gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet yn rhan o'r ymarferion hyn. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb gydag aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun cyfalaf yn dilyn craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac wedi i'r cabinet ei argymell.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y tymor canolig, yn enwedig oherwydd cyfraddau gostyngiadau cyllidebau sydd eu hangen yn y ddwy flynedd nesaf.

Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £132.454 miliwn ar raddfa gyfartalog o 5.79%. Roedd balansau buddsoddi yn £27.1 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.80%.

**10. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol.